# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA
## AGENDA – CYFARFOD GORFFENNAF 2021

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fercher, 21 o Orffennaf, 2021** |
| **AMSER** | **7.00yh Cyfarfod Misol y Cygor** |
| **LLEOLIAD** | **AR LEIN DRWY MICROSOFT TEAMS** |
| **CADEIRYDD** | **HUW ROWLANDS** |

| | |
|---|---|
| 1. | **CROESO** |
| | Croesawodd y Cadeirydd bawb I'r cyfarfod gan ymestyn croeso arbennig I RD am ei bresenoldeb I drafod pwynt 5b.<br>Esboniodd ei fod wedi dilyn arweiniad Un Llais Cymru I beidio a chyfarfod wyneb yn wyneb yn dilyn chwyddiant I niferoedd achosion Covid.<br>Yn bresennol heno roedd Michelle Williams (MW), Nerys Evans (NE), Elin Evans (EE), Peter Roberts (PR), Rhodri Dwyfor (RD), a Gillian Wynne Thomas (Clerc). |
| 2. | **YMDDIHEURIADAU** |
| | Jason Hunt (JH), Gwilym Thomas (GT), Gwilym Williams (GW), Tom Ellis (TE), Aeron M Jones (AMJ) |
| 3. | **DATGAN BUDDIANT** |
| | Dim |
| 4. | **CADARNHAU COFNODION MEHEFIN 2021 A MATERION YN CODI** |
| | Gofynodd NE am gywirdeb bach I bwynt 11.7 sef GW oedd wedi codi'r mater ac nid y hi. Cynnigiodd MW gywirdeb y cofnodion gyda NE yn eilio a phawb yn cytuno. |
| 5. | **MATERION MISOL** |
| | a) **CYFETHOL AELODAU**<br>Esboniodd y clerc bod y broses I gyfethol aelodau newydd I Rhostryfan a Rosgadfan wedi cychwyn a bod rhybydd ar dudalen Facebook y Cyngor Cymuned a gwefan y Cyngor Sir yn hysbysebu trigolion -<br><br>Cynhelir etholiad i lenwi'r seddi gwag os cyflwynir cais ysgrifenedig am etholiad sy'n cynnwys llofnod deg etholwr o'r ward perthnasol i'r: Swyddog Canlyniadau, Cyngor Gwynedd, o fewn y cyfnod sy'n diweddu am 12.00pm ar ddydd Gwener, 23 Gorffennaf, 2021.<br><br>Os na dderbynnir cais am etholiad, bydd y clerc wedyn yn gosod hysbyseb arall ar dudalen Facebook y Cyngor yn cynnig ffenest o fis I dderbyn ceisiadau a llenwir y seddi gwag gan y Cyngor Cymuned.<br><br>b) **LLWYBR BRYN GWYN**<br>Gan nad oedd yr aelodau yn sicr o'r gwaith oedd angen ei ddarparu ar y llwybr penderfynnwyd ymestyn gwahoddiad I RD I drafod y mater. |

Llofnodwyd gan ........................................................................ Dyddiad ..................................................................

*Clerc Cygnor Cymuned Llanwda Community Council Clerk*
*1 Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon, Gwynedd LL54 7HP*
*Ffon / Tel: 07979 438 307*
*E.bost / E.mail: clercllanwnda@yahoo.co.uk*

Cadarnhaodd RD bod y rhestr waith oedd wedi ei gyflwyno yn y gorffenol yn parhau I adlewyrchu'r gwaith sydd ei angen.

Parthed y cwyn oedd MW wedi ei dderbyn am anifeiliad yn cerdded y llwybr yn dilyn tamaid or ffens wedi disgyn ar ochor uchaf y llwybr adroddodd y clerc ei bod wedi derbyn cadarhad gan y clerc blaenorol mae cyfrifildeb y ffarmwr yw cyflawni'r gwaith.  Y Clerc I lythyru a'r ffarmwr I ofyn iddo gyflawni'r gwaith.

Esboniodd y Cadeirydd ei fod wedi trafod cynydd I'r gwaith a gytunwyd yn flaenorol yn Nhryfan Junction gyda Wyn Williams ac ei fod yn fodlon I ddarparu addasiad I'r amcanbris oedd wedi ei gynnig yn flaenorol.

Y clerc I rannu adroddiad RD gyda Wyn Williams.

c) **MYNWENT CEFNFAES**

Adroddodd y clerc bod Pwyllgor y Fynwent wedi cyfarfod ar y safle yn ddiweddar ac eu bod wedi cytuno

1. Nid yw  7 torriad blynyddol I'r gwair bellach yn ddigonol, cynnuddu hyd at 3 torriad ychwannegol
2. angen torri tu fewn I'r hen feddi
3. angen clirio eiddew oddi ar y waliau
4. angen clirio gordyfiant o gefn y fynwent
5. ystyried archebu llecyn o dir ychwannegol maint 20 meter o hyd I redeg ar hyd ochor chwith y fynwent fel llwybr i'r estyniad.

Cyflwynodd y clerc amcanbris gan y contractwr presennol I gyflawni pwynt 2 a 3.
Adroddodd ei fod hefyd wedi cadarnhau y bydd yn torri tu mewn I'r beddi pan bo angen ar diim cost ychwannegol I'r Cyngor.
Gan ystyried cynhwysedd y gwaith I glirio'r eiddew a chlirio'r gordyfiant cynnigiodd MW ac eiliodd NE I dderbyn yr amcanbris o £1,000.00  fel un teg iawn. Cytunodd yr aelodau.

Cynnigiodd EE ac eiliodd NE a cytunodd gweddill yr aelodau bydd hyd at dri torriad ychwannegol yn dderbyniol ar ofyn y Cyngor.

d) **PONT TROED BRO GILBERT, RHOSTRYFAN**

Adroddodd y clerc ei bod wedi derbyn cadarnhad bod y gwaith I arbed plant ddringo I'r dwr bellach wedi ei gyflawni gan y Cyngor sir.

e) **JH -  BOLLARD YM MHONT BRO GILBERT**

Adroddodd y clerc ei bod yn anodd iawn cynnig diweddariad gan fod y cais yn cael ei ail gyfeirio I wahanol adrannau yn y Cyngor Sir.
Cytunwyd gofyn I AMJ ddilyn y mater

f) **PROJECT UWCH GWYRFAI – GWETHUSO**

Adrodd y clerc bod Dion Roberts wedi cutunno I gyfarfod a GW yn yr wythnosau nesaf ar y safle I drafod pryderon GW parthed y coed wedi ei plannu yn y gorlan ger Bont yr Afon.
Gan nad oedd GT yn bresennol henno cytunwyd I drafod pryderon yr aelodau ar y gwerthuso yn y cyfarfod nesaf.

g) **JH – PECYN O DIR YN FRONDEG – RHOSTRYFAN**

Adroddodd y clerc ei bod wedi cyflwyno'r cwyn am damaid o dir oedd wedi cael ei feddianu gan un o gymdogion Frondeg I Gwni Adra ond ei bod wedi methu cael diweddariad gan ei bod yn anodd iawn trafod y mater gyda neb onibai am dderbynnydd y Cwni.
Cytunwyd gofyn I AMJ I ddilyn y mater.

h) **NE – CAR YN PARHAU AR LLWYBR TAN FRON RHOSTRYFAN**

Adroddodd NE ei bod wedi methu paratoi llyniau or sefyllfa fel y gaddwyd gan nad oedd y car bresennol wrth iddi alw heibio.  Cytunwyd I drafod y mater yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

| | |
|---|---|
| 6. | **DERBYN ADRODDIADAU** |
| | **ADRODDIAD YR ARCHWILWYR MEWNOL**<br>Ymddiheurodd y clerc gan nad oedd hi wedi derbyn yr adroddiad hyd yn hyn. |
| 7. | **MATERION CYNLLUNIO** |
| | **a) RHIF CAIS: C21/0571/24/DT – TAWELFA, RHOS ISAF, CAERNARFON, GWYNEDD, LL54 7NG**<br>Estyniad unllawr at gefn ty annedd<br>Y clerc I adrodd I'r Cyngor Sir ni dderbyniwyd unrhyw sylawadu na gwrthwynebiad I'r cais<br><br>**b) RHIF CAIS: C21/0685/24/LL - Y LLOFFT FLAWD, RHOSGADFAN, CAERNARFON, GWYNEDD, LL54 7ET**<br>Cais ar gyfer dymchwel modurdai presennol a chodi 2 dy par<br>Y clerc I adrodd I'r Cyngor Sir ni dderbyniwyd unrhyw sylawadu na gwrthwynebiad I'r cais |
| 8. | **MATERION ARIANNOL** |

**a) CYSONIAD**

Rhannwyd y cysoniad gyda'r aelodau mlaen llaw y cyfarfod.
Cynnigiodd EE ei gywirdeb gyda MW yn eilio, cytunodd yr aelodau.

**b) DATGANIADAU BANC**

**Cyfrif Cyfredol**

| **BALANS AGORIADOL** | **29.05.21 – 28.06.21** | **8,355.70** |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| **DERBYNIADAU** | Claddedigaeth | 120.00 |
| | Claddedigaeth | 1,000.00 |
| | | |
| **TALU ALLAN** | Rhodd I Ty Gobaith | 100.00 |
| | Rhodd I Papur Bro Lleu | 150.00 |
| | Cyflog Clerc | 575.00 |
| **BALANS CAU** | | **8,650.70** |

**Cyfrif Cadw**

| **BALANS AGORIADOL** | **01.06.21 – 28.06.21** | **58,917.15** |
|---|---|---|
| | | |
| **DERBYNIADAU** | Llogau Banc | 1.25 |
| | | |
| **BALANS CAU** | | **58,918.40** |

**c) TALIADAU I'W CYMERADWYO**

| **RHIF SIEC** | **ESBONIAD** | **CYFANSWM** |
|---|---|---|
| | | |
| **101625** | Cyflog a threuliau clerc | 575.00 |
| **101626** | Cyfrifiaduron Whitten Computers | 198.00 |
| **101627** | Wyn Williams (cynnal a chadw) | 2,139.00 |

Cytunwyd I ychwannegu'r gwaith ychwannegol misol I gytundeb nesaf cynnal a chadw'r Cyngor.

| | |
|---|---|
| 9. | **GOHEBIAETH** |
| | **a) DION ROBERTS – PROJECT UWCH GWYRFAI**<br>Gweler pwynt 5 f)<br><br>**b) GORCHYMYN CAU LLWYBRAU DROS DRO**<br>Derbyniwyd fel gwybodaeth<br><br>**c) CYFARFODYDD CHWAREL MOEL TRYFAN**<br>Derbyniwyd fel gwybodaeth |
| 10. | **MATERION LLEOL** |
| | a) **NE-** Gofynodd NE am adborth parthed rheolau cynllunio I agor adwy ar gynefin.<br>Adroddodd NE bod adwy nawr wedi hael ei agor ac eu lleoli mewn lle neilltuol I'r ddau gilbost oedd ar y sefyllfa yn flaenorol heb gais cynllunio ar dir yn Rhosisaf. Cytunwyd nad oedd cais cynllunio wedi ei dderbyn ar gyfer y gwaith.<br>NE I yrru llyniau mlaen I'r clerc gael gwneud ymholiadau gyda Chyngor Gwynedd.<br><br>**b) Bin Cae Chware Rhosgadfan**<br>Tynwyd I sylw'r Cyngor nad oedd y bin yn y cae chwarae wedi ei wagio ers sbel, Y clerc I wneud ymholiadau gyda Dylan Humphreys. Gofyn iddo hefyd pa mor amal bydd y cae chwarae yn cael ei thori ganddo. |
| 11. | **CYFARFOD NESAF Y CYNGOR** |
| | **Nos Fercher yr 22il o Fedi 2021 – Lleoliad I'w gadanhau**<br><br>a) Holiadur y Cyngor<br>**b)** Cynllyn 5 Mlynedd |